**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Mehefin 2007**

## GWEITHGARWCH RHEOLI TRYSORLYS A GWIR DDANGOSYDDION DARBODUS 2006-2007

**Adroddiad gan Ken Finch,
Trysorydd i'r Awdurdod**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** Mae'r adroddiad trysorlys blynyddol yn un o ofynion gweithdrefnau cofnodi'r Awdurdod, ac mae'n cynnwys gweithgarwch y trysorlys ar gyfer 2006-2007. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys y gwir Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2006-2007, yn unol â gofynion y Côd Darbodus.

## GWEITHGARWCH RHEOLI TRYSORLYS 2006-2007

**Crynodeb o'r Strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer 2006-2007**

**2.** Roedd ymgynghorwyr Trysorlys yr Awdurdod, sef Butlers, yn rhagweld y byddai cynnydd mewn cyfraddau llog tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2006-2007. Y strategaeth, yn seiliedig ar yr hyn a rhagfynegwyd, oedd benthyca yn gynnar yn y flwyddyn er mwyn manteisio ar y cyfraddau is. Dylid buddsoddi unrhyw arian dros ben yn unol â rhagolygon diweddaraf y farchnad.

## Y Cefndir Economaidd ar gyfer 2006-2007

**3.** Fel y rhagfynegwyd, cododd cyfraddau llog yn ystod y flwyddyn, gyda'r gyfradd sylfaenol yn codi o 4.5% i 5.25%. Roedd cyfraddau llog a bennwyd am dymor hirach yn cynyddu a gostwng oherwydd ansicrwydd y farchnad, ond roedd y tuedd at i fyny. Cymerodd yr Awdurdod fantais o'r newidiadau yn y cyfraddau llog ac aildrefnu rhan o'r portffolio benthyciadau.

## Gweithgarwch Benthyg

**4.** Mae benthyciadau'n cael eu trefnu er mwyn ariannu rhaglen gyfalaf yr Awdurdod Tân ac Achub. Ni threfnwyd unrhyw fenthyciadau ychwanegol yn 2006-2007 gan ein bod wedi benthyca o flaen llaw yn 2005-2006 ac roedd hyn yn ddigon i dalu am ofynion benthyg 2006-2007.

## Aildrefnu

**5.** Yn ystod y flwyddyn aildrefnwyd cyfanswm o £4.8m o fenthyciadau, ac roedd y cyfraddau llog ar y benthyciadau a ad-dalwyd rhwng 4.6% a 4.9%. Trefnwyd benthyciadau newydd am gyfanswm o £4.8m am gyfnod o rhwng 45 a 46 mlynedd ar gyfradd o 4.25%. Bydd yr Awdurdod yn arbed £15 mil y flwyddyn mewn taliadau llog.

## Buddsoddiadau

**6.** Mae polisi buddsoddi'r Awdurdod yn cael ei bennu gan Ganllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n cael ei weithredu yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwywyd gan yr Awdurdod 15 Rhagfyr 2003. Roedd y gweithgarwch buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth a gymeradwywyd, ac ni chafodd yr Awdurdod unrhyw drafferthion hylifedd.

**Buddsoddiadau** *(parhad)*

Buddsoddwyd yr holl arian oedd dros ben yn y farchnad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ran yr Awdurdod Tân. Balans buddsoddiadau'r flwyddyn ar gyfartaledd oedd £4,000,000. Balans y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2007 oedd £2,510,000 o'i gymharu â £4,690,000 ar 31 Mawrth 2006.

Ym mis Ionawr 2007, ad-dalwyd £1m i'r Awdurdodau Cyfansoddol o'r Ddarpariaeth Bensiwn fel y nodwyd mewn adroddiad i'r Awdurdod Tân ar 18 Rhagfyr 2006. O ganlyniad i'r ad-daliad mae lefel y cyllid sydd gan yr Awdurdod Tân i'w fuddsoddi wedi lleihau. Yn ffodus, gwnaethpwyd yr ad-daliad tuag at ddiwedd y flwyddyn a chyda'r codiad yng nghyfradd sylfaenol Banc Lloegr, y gwir log a dderbyniwyd oedd £212 mil ar gyllideb o £180 mil.

**Dangosyddion Darbodus**

**7.** Mae gofyn i'r Awdurdod yn unol â'r Côd Darbodus, roi gwybod am wir ddangosyddion darbodus ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae Atodiad A yn darparu rhaglen o ddangosyddion darbodus gorfodol. Mae rhai o'r dangosyddion hyn un ai'n rhoi trosolwg neu derfyn ar weithgarwch trysorlys, a dangosir y rhain isod.

| | **31 Mawrth 2007 Gwirioneddol £'000** | **31 Mawrth 2007 Dangosydd Gwreiddiol £'000** |
|---|---|---|
| Sefyllfa Benthyca | 8,513 | 14,190 |
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 8,740 | 11,475 |

**Dangosyddion Darbodus** *(parhad)*

Mae Gofyniad Cyllido Cyfalaf (Capital Financing Requirement – CFR) yn dangos angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyg i ddiben cyfalaf, ac mae hyn yn ffordd o fesur sefyllfa dyled y Cyngor fel y dangosir uchod. Er mwyn sicrhau y bydd gwir fenthyca buddsoddiadau dros y tymor canolig i bwrpas cyfalaf yn unig, ni ddylai'r benthyg, ar wahan i'r tymor byr, fod yn fwy na'r CFR ar gyfer 2006-2007 plws y newidiadau disgwyliedig i'r CFR yn ystod 2007-2008 a 2008-2009. Mae'r tabl uchod yn amlygu'r ffaith nad yw sefyllfa benthyg yr Awdurdod wedi bod yn fwy na'r CFR ar gyfer 2006-2007 oherwydd na fenthycwyd o'r newydd yn ystod y flwyddyn,

Y Terfyn Awdurdodedig yw'r "Terfyn Benthyca Fforddiadwy" sydd yn ofynol dan adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r tabl isod yn dangos fod yr Awdurdod wedi cadw ei fenthyca gros o fewn y Terfyn Awdurdodedig yn ystod 2006-2007.

Y Ffîn Weithredol yw sefyllfa benthyg ddisgwyliedig yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, ac mae cyfnodau pan fo'r wir sefyllfa o dan, neu dros y Ffîn yn dderbyniol ar yr amod nad yw'r Terfyn Awdurdodedig yn cael ei dorri.

| | **2006/07 £'000** |
|---|---|
| Dangosydd Gwreiddiol – Terfyn a Ganiateir | 16,190 |
| Dangosydd Gwreiddiol – Ffîn Weithredol | 14,190 |
| Y mwyafswm o ran benthyciadau yn ystod y flwyddyn | 8,513 |
| Yr isafswm o ran benthyciadau yn ystod y flwyddyn | 8,513 |

## Y Fframwaith Rheoleiddio, Risg a Pherfformiad

**8.** Mae gweithgarwch rheoli trysorlys yr Awdurdod yn cael ei reoli gan amrywiaeth o godau, deddfau a chanllawiau proffesiynol:

Deddf Llywodraeth Leol 2003 (y Ddeddf), sy'n darparu'r pwerau i fenthyg a buddsoddi yn ogystal â rhoi cyfyngiadau a therfynau ar y gweithgarwch hwn;

Mae'r Ddeddf yn caniatáu i Lywodraeth Cynulliad Cymru osod terfynau un ai ar yr Awdurdod neu yn genedlaethol ar bob awdurdod lleol, gan gyfyngu ar y benthyg sy'n a ganiateir (er na wnaed unrhyw gyfyngiadau yn 2006-2007);

Mae'r Cyfrwng Statudol – (Statutory Instrument SI) 3239 (W319) 2003, diwygiedig, yn datblygu ac yn rheoli pwerau o fewn y Ddeddf;

Mae'r SI yn mynnu bod yr Awdurdod yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch benthyca gan ystyried Côd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf Awdurdodau Lleol;

Mae'r SI hefyd yn mynnu bod yr Awdurdod yn cymryd gofal am holl weithgarwch y trysorlys gan ystyried Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus;

Dan y Ddeddf mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno Canllaw Buddsoddi i strwythuro a rheoli gweithgarwch buddsoddi'r Awdurdod.

## Y Fframwaith Rheoleiddio, Risg a Pherfformiad *(parhad)*

Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddio perthnasol uchod sy'n rhoi terfyn ar lefel y risg sy'n gysylltedig â'i weithgarwch rheoli trysorlys. Yn benodol, mae'r ffaith ei fod wedi mabwysiadu a gweithredu'r Côd Darbodus a'r Côd Ymarfer ar gyfer Rheoli Trysorlys yn golygu bod ei wariant cyfalaf yn ddoeth, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, ac mae ei arferion trysorlys yn dangos agwedd risg isel

## Argymhellion

Awgrymir fod Aelodau yn:

**9.1** Cymeradwyo gwir Ddangosyddion Darbodus 2006-2007.

**9.2** Nodi'r adroddiad ar weithgarwch Rheoli'r Trysorlys yn 2006-2007.

**K W FINCH**
**Trysorydd**

**ATODIAD A**

| | | 2006/07<br>Gwir | 2006/07<br>Dangosydd<br>Gwreiddiol |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf | 1,785,838 | 2,780,000 |
| 2 | Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 8,739,757 | 11,475,000 |
| 3 | Benthyca | 8,513,428 | 11,475,000 |
| 4 | Buddsoddiadau | 2,510,000 | 4,690,000 |
| 5 | Terfyn a Ganiateir | 8,513,428 | 16,190,000 |
| 6 | Ffîn Weithredol | 8,513,428 | 14,190,000 |
| 7 | Cymhareb y Costau Ariannu i Lif Refeniw Net | 3.07% | 3.48% |
| 8 | Effaith gynyddol Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf ar y Cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol. | 43,753 | 62,550 |
| 9 | Benthyciadau Cyfradd Llog Sefydlog fel % o Gyfanswm y Benthyciadau | 100% | 55% - 100% |
| 10 | Benthyciadau Cyfradd Amrywiol fel % o Gyfanswm y Benthyciadau | 0% | 0% - 45% |
| 11 | Strwythur Aeddfedu Benthyciadau Cyfradd Sefydlog | | |
| | Dan 12 mis | 0% | 0% - 30% |
| | 12 mis i 2 flynedd | 0% | 0% - 30% |
| | 2 flynedd i 5 mlynedd | 4.8% | 0% - 50% |
| | 5 mlynedd i 10 mlynedd | 5.9% | 0% - 75% |
| | 10 mlynedd a mwy | 89.3% | 20% - 90% |


MEWN CYFYNGDER Y · GELWAIST